

Lisa Curtis-Jones
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
CBS Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig
Stryd y Castell,
Merthyr Tudful
CF47 8AN

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2020-2021: Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein harolygiad gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd rhwng 19 Hydref a 23 Hydref 2020. Prif ddiben yr arolygiad hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Trosolwg

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen arolygu arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu lles yn cael ei hybu yn ystod y pandemig.

Diben yr arolygiad hwn oedd adolygu pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny.

Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac rydym wedi cofnodi ein barnau a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Llesiant, Partneriaethau ac Integreiddio.

Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella:

Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Offices
Sarn Mynach
Llandudno Junction
Conwy
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, wrth hefyd gydbwyso'r argymhellion a'r gofynion a wnaed gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar lledaeniad COVID-19?

Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r ffaith bod angen sicrhau bod pobl bob amser yn gallu lleisio eu barn ac yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Gwelsom amrywiaeth eang yn ansawdd a chynnwys y cofnodion a ysgrifennwyd wrth gofnodi barn pobl. Mewn gwasanaethau oedolion, gwelsom rai enghreifftiau da o adolygiadau a ysgrifennwyd yng ngeiriau'r bobl eu hunain. Roedd cofnodion achos eraill yn dangos diffyg eglurder ynghylch y canlyniadau yr oedd pobl am eu cyflawni, ac roeddent yn canolbwyntio gormod ar anghenion yn hytrach na chryfderau. Er mwyn osgoi anghysondebau, rhaid i reolwyr sicrhau bod barn yr unigolyn yn cael ei chofnodi, a bod y canlyniadau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyfleu'n glir.

Dangosodd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyderus bod plant ac oedolion ym Merthyr Tudful yn ddiogel. Gwelsom fod yr awdurdod lleol yn ymateb yn brydlon i bryderon am ddiogelwch ac yn blaenoriaethu risgiau i ddiogelwch pobl yn briodol. Nid yw'r awdurdod lleol wedi rhoi model ymarfer gwaith cymdeithasol dewisol ar waith ac roedd diffyg dadansoddiad clir o risgiau a ffactorau diogelu mewn asesiadau, a oedd o safon anghyson. Er bod y mwyafrif o asesiadau mewn gwasanaethau plant yn nodi risgiau, mae angen cynnal dadansoddiad mwy trylwyr, gan gynnwys yr effaith ar y plentyn. Mae angen i'r cynlluniau gofal a chymorth nodi barn y plentyn yn gliriach. Roedd tystiolaeth gyfyngedig o waith uniongyrchol gyda phlant a theluoedd yn y cofnod ysgrifenedig, gan olygu ei bod yn anodd gweld cyfraniad y plant a'u gallu i ddylanwadu ar wasanaethau a chynlluniau.

Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth yn newis iaith yr unigolyn. Gwelsom fod asesiadau'n cael eu cynnig yn Gymraeg pan fydd pobl yn cysylltu â'r awdurdod lleol am y tro cyntaf, a gwelsom fod digon o weithwyr cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg ar gael i sicrhau bod dewisiadau pobl o ran iaith yn cael eu parchu. Hefyd, gwelsom enghreifftiau o wasanaethau cyfieithu ar y pryd yn cael eu defnyddio megis drwy gyfrwng Mandarin a Phwyleg, yn ogystal â dehonglydd iaith arwyddion, er mwyn galluogi pobl i chwarae mwy o ran yn eu gofal a'u cymorth. Yn ystod pandemig COVID-19 gwelsom fod dulliau cyfathrebu effeithiol yn cael eu defnyddio i gadw mewn cysylltiad â phobl, er enghraifft mewn gwasanaethau plant roedd cyfarfodydd statudol yn cael eu cynnal yn rhithwir. Mewn gwasanaethau oedolion roedd galwadau ffôn cyfeillio cefnogol yn cael eu gwneud er mwyn osgoi'r ymdeimlad o ynysu cymdeithasol, yn ogystal â'r defnydd creadigol o daliadau uniongyrchol i hyrwyddo llesiant pobl.

Mae'r tîm uwch-reolwyr wedi canolbwyntio ar gefnogi'r staff yn ystod y pandemig drwy ddarparu cymorth anffurfiol rheolaidd, sesiynau goruchwyllo a chrynhoi canllawiau mewn dogfennau llai y gellir eu darllen mewn un funud. Yn gyffredinol, roedd y staff o'r farn bod yr uwch-reolwyr yn weledol, yn ymatebol ac yn canolbwyntio ar wella'r ymarfer. Clywsom am ddiwylliant cefnogol lle mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gadarnhaol am ddyfodol Merthyr Tudful. Yn ystod y pandemig, cysylltodd aelodau etholedig â'r staff i ddiolch iddynt am eu hymrwymiad. Clywsom am y dull 'Brwdfrydedd dros Ymarfer', sy'n ceisio defnyddio ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi'r staff. Dangosodd y ffolderi goruchwyllo fod y staff yn cael eu canmol a'u hannog.

Er bod asesiadau'n cael eu cynnig i ofalwyr, mae'r awdurdod lleol yn derbyn bod angen iddo wneud mwy yn y maes hwn a gwella'r broses o gofnodi canlyniadau pobl. Clywsom fod cynlluniau i benodi gweithwyr gofalwyr mewn gwasanaethau oedolion. Penodwyd swyddog gofalwyr yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel yn flaenoriaeth. Clywsom fod cymorth da ym maes rhianta corfforaethol ym mhob rhan o'r cyngor. Dywedodd y nifer bach o ofalwyr maeth y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael cymorth gwyb gan y tîm maethu, ynghyd â chyfleoedd rheolaidd i gael hyfforddiant ac ennill cymwysterau ym maes gofal cymdeithasol. Enghreifftiau cadarnhaol yn bennaf a gawsom gan bobl ifanc am y cymorth roeddent wedi ei gael gan weithwyr cymdeithasol plant sy'n derbyn gofal, gweithwyr cymorth a sefydliadau gwirfoddol. Hefyd, gwelsom enghreifftiau calonogol o bobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael cymorth i ddod o hyd i waith ac yn byw mewn llety priodol. Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym y gellid bod wedi dechrau'r gwaith o gynllunio ar gyfer newid i wasanaethau oedolion yn gynt.

Atal – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Clywsom am drefniadau arwain a llywodraethu cymesur a chyson. Mae'r uwch-reolwyr yn cydweithio â phartneriaid i ddeall anghenion poblogaeth Merthyr Tudful ac maent yn canolbwyntio ar ddulliau ataliol o ymateb i anghenion gofal a chymorth a nodir yn lleol. Gwelsom enghreifftiau wybodaeth, cyngor a chymorth (IAA) hygyrch a bod pobl yn cael eu cyfeirio at wasanaethau ataliol. Dywedodd staff mewn gwasanaethau oedolion wrthym am fanteision cydleoili gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cydweithio i gefnogi canlyniadau pobl, ac roedd hyn yn amlwg yn y trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Dywedodd yr ymarferwyr wrthym fod pobl yn cael cymorth gan y gwasanaeth Swyddogion Cymorth Meddygon Teulu, sydd â'r nod o ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol pobl wrth iddynt fynychu eu meddygfa. Dangosodd y wybodaeth a gawsom mai ar gyfer gorbryder y caiff atgyfeiriadau eu gwneud yn bennaf, ac yn ôl staff yr awdurdod lleol, mae'r cymorth hwn yn gyswllt effeithiol rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol a'r awdurdod lleol. Mae proses recriwtio parhaus yn mynd rhagddi er mwyn sicrhau y caiff swyddi eu llenwi.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod pobl yn cael cymorth i aros gartref yn ddiogel ac yn cael gwasanaethau cymorth yn y cartref yn ddi-oed. Roedd pobl y mae angen gofal preswyl arnynt yn cael eu hasesu mewn modd addas ar gyfer y ddarpariaeth hon. Yn sgil cynnydd yn nifer yr achosion positif o COVID-19, nid yw pob cartref gofal wedi gallu derbyn pobl. Mae uwch-reolwyr yn monitro'r sefyllfa yn weithredol, yn blaenoriaethu ceisiadau ac yn helpu pobl i gael mathau eraill o ofal nes y bydd lleoliad ar gael iddynt. Yn ystod y pandemig, mae'r awdurdod lleol wedi ceisio hybu llesiant pobl sy'n agored i niwed drwy greu capasiti ychwanegol i gefnogi pobl gartref. Mae hyn wedi cael ei gyflawni drwy adleoli staff o ganolfannau gofal dydd a gafodd eu cau dros dro yn sgil y pandemig.

Mewn gwasanaethau oedolion, gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o bobl yn cael gwasanaeth ail-alluogi, yn ogystal â chymorth i fodloni eu hamcanion o ran annibyniaeth. Gwelsom ymateb amserol i geisiadau am fân gymhorthion neu addasiadau. Fodd bynnag, nodwyd bod rhestr aros ar gyfer ceisiadau mwy cymhleth am Therapydd Galwedigaethol Cymunedol. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod adolygiadau ar gyfer pobl wedi'u hoedi yn

ystod y pandemig. Roedd hyn yn golygu bod anghenion rhai pobl yn gwaethygu. Mae rheolwyr yn defnyddio data yn effeithiol i sicrhau y caiff rhestrau aros eu cadw mor fyr â phosibl.

Ers creu'r Tîm Cefnogi Newid yn ddiweddar, mae'n amlwg bod uwch-reolwyr yn blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau ataliol. Mae'r tîm ar gael i weithio tan 9pm a'i gylch gwaith yw helpu plant a theluoedd i oresgyn anawsterau. Gwelsom enghreifftiau da o'r tîm yn cydweithio â phlant a theluoedd mewn amgylchiadau cymhleth. Roedd y staff yn teimlo'n gadarnhaol iawn am ddatblygiad y gwasanaeth ataliol hwn, a thynnodd rhai ohonynt sylw at fanteision defnyddio system cymorth hyblyg â haenau i deuluoedd. Dywedodd y staff wrthym fod yr awdurdod lleol yn awyddus i arloesi a rhoi syniadau neu newidiadau newydd ar waith er mwyn gwella'n barhaus. Mae'r rheolwyr wedi croesawu'r penderfyniad i symud Teuluoedd yn Gyntaf i mewn i'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol er mwyn helpu'r awdurdod lleol i gefnogi teuluoedd yn gynt.

Gwelsom enghreifftiau lle roedd cymorth taliadau uniongyrchol i blant anabl a'u teuluoedd yn gweithio'n dda. Serch hynny, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen iddo gynnig amrywiaeth ehangach o gymorth a dewisiadau i deuluoedd. Mae tîm plant ag anableddau hirsefydledig ym Merthyr Tudful, y mae ei weithwyr yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol fod seibiant a seibiannau byr yn feysydd i'w datblygu.

Partneriaethau ac Integreiddio: Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau ei hun ei fod yn achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn gwneud y gorau o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a'u bod yn gynaliadwy?

Mae partneriaethau yn gweithio'n dda ar y rhan fwyaf o lefelau yn y sefydliad. Mae'r awdurdod lleol wedi cyflawni capasiti strategol ychwanegol fel rhan o waith y Bwrdd Gwella a Sicrwydd. Mae'r rheolwyr wedi croesawu hyn er mwyn sicrhau cyfeiriad strategol gwell i'r awdurdod lleol. Mae'r capasiti strategol hwn wedi helpu'r awdurdod lleol i greu achosion busnes dros adnoddau ychwanegol, megis ymarferydd diogelu oedolion yn yr hwb diogelu amlasiantaethol. Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i ddatblygu hyn er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi'r gwaith da sy'n cael ei wneud ar lefel weithredol ac unigol.

Yn ystod ein trafodaethau â phartneriaid, dywedwyd wrthym am gydberthnasau effeithiol a oedd yn annog her briodol. Roedd hyn yn amlwg yn y gwaith a welsom mewn perthynas â'r hwb diogelu amlasiantaethol. Roedd cynrychiolaeth gyson mewn fforymau amlasiantaethol, gan gynnwys y panel cefnogi newid misol. Yn ystod COVID-19, mae sawl cyfarfod ar y cyd wedi'i gynnal ar lefel Efydd i gefnogi dull a rennir o fynd i'r afael â'r pandemig. Clywsom am gyswllt agos ag ysgolion wedi'i hwyluso gan y cydlynnydd addysg plant sy'n derbyn gofal, sy'n gweithio yn y gwasanaethau plant. Gwelsom baneli a oedd wedi'u trefnu'n dda ac yn gyfrwng effeithiol i drafod a mynd i'r afael â phroblemau. Er enghraifft, trafododd y panel pontio bobl ifanc a oedd yn addas i symud o'r cam 'Pan Fydda i'n Barod' i'r cam 'Bywydau a Rennir', gan eu galluogi i aros yn eu cartrefi presennol am gyfnodau hwy.

Dywedodd rheolwyr a staff gwaith cymdeithasol wrthym am heriau cefnogi anghenion emosiynol plant a diffyg gwasanaethau iechyd meddwl. Nid yw'r mater hwn yn benodol i'r awdurdod lleol ac roedd uwch-reolwyr yn cydweithio â'u partneriaid i ddylunio a darparu gwasanaeth cymorth therapiwtig i blant sy'n derbyn gofal. Maes arall i'w ddatblygu yw

cydgomisiynu cymorth a lleoliadau i blant anabl. Mae'r awdurdod lleol wedi cydnabod bod gweithio mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd yn flaenoriaeth er mwyn gwella cymorth i blant anabl a'u teuluoedd.

Roedd yr ymarferwyr yn ymrwymedig i ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, a'u teuluoedd. Roedd tystiolaeth bod 'sgyrsiau am yr hyn sy'n bwysig' yn cael eu cynnal a bod hyn yn helpu i gasglu gwybodaeth fanwl. Gellid gwella'r graddau y mae pobl yn cael eu cynnwys ac yn bartneriaid cyfartal yn y broses o ddylunio a darparu gofal a chymorth. Er bod enghreifftiau da, roedd yr ymarfer yn rhy anghyson ac mewn rhai achosion rhan gyfyngedig yr oedd yr unigolyn ei hun a'i deulu yn ei chwarae yn y broses. Roedd hyn yn golygu nad oedd canlyniadau personol bob amser yn cael eu cofnodi'n dda a bod hyn yn faes i'w wella. Drwy ystyried rhwydweithiau cymorth ehangach a chynlluniau wrth gefn wrth gofnodi achosion, byddai'n gwella dealltwriaeth o'r unigolyn a'i brofiadau.

Llesiant: Gwnaethom ofyn i: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn cynnal eu diogelwch ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Dangosodd y ffeiliau achosion a welsom y gellir rhoi sicrwydd i bobl Merthyr Tudful y caiff eu diogelwch eu hybu. Roedd ffocws ar ddiogelu ac roedd yr holl bartneriaid yn dangos dealltwriaeth gyffredin o'r gweithdrefnau newydd. Gwelsom fod yr awdurdod lleol yn ymateb yn brydlon i bryderon am ddiogelu ac mai pur anaml yr oedd yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau statudol. Er bod y broses o nodi risgiau yn gadarn, nid oedd y broses o ddadansoddi sut i reoli risgiau yng nghyd-destun llesiant unigolyn bob amser yn cael ei chofnodi'n dda, ac mae'r awdurdod yn cydnabod bod hyn yn faes i'w wella. Mae angen sicrhau bod llais yr unigolyn sy'n wynebu risg yn cael ei glywed a'i gynrychioli'n well mewn asesiadau a chynlluniau gofal.

Er i ni weld tystiolaeth o ddulliau effeithiol o ddiogelu pobl, nid oedd y cofnodion bob amser yn dangos sut y caiff ymholiadau ac ymchwiliadau eu cynnal, ac mae angen rhagor o waith yn y maes hwn. Er bod gweithgarwch rheolaidd yn sicr mewn perthynas â chofnodi achosion, roedd diffyg ffocws weithiau o ran y canlyniadau y ceisiwyd eu cyflawni. Byddai'n fuddiol i reolwyr oruchwylio achosion y fwy llym er mwyn sicrhau canlyniadau cliriach i bobl.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu sawl dull o sicrhau ansawdd gan gynnwys cyfarfodydd cyfathrebu i ystyried meysydd o arfer da a rhannu unrhyw wersi sy'n cael eu dysgu. Mae'r tîm uwch-reolwyr yn gwneud gwaith archwilio rheolaidd er mwyn nodi themâu a rhoi adborth uniongyrchol i ymarferwyr. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith mewn gwasanaethau oedolion er mwyn atgyfnerthu'r broses o sicrhau ansawdd.

Yn achos gwasanaethau plant, gwelsom nad oedd y swyddogion adolygu annibynnol a'r awdurdod lleol bob amser yn cyfathrebu'n llwyddiannus. Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried pwysigrwydd rôl swyddogion adolygu annibynnol wrth fonitro perfformiad yr awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol ac wrth fynd ar drywydd canlyniadau personol ar gyfer plentyn neu berson ifanc. Gwelsom fod nifer cynyddol o blant yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau Lleoli gyda Rhiant. Ni roddwyd sicrwydd i staff bob amser ynglŷn â sut roedd y trefniadau hyn yn gwella'r dulliau diogelu gofynnol ar gyfer plant agored i niwed sy'n byw gyda'u teuluoedd. Dywedodd y staff wrthym fod safbwyntiau croes rhwng yr awdurdod lleol a swyddogion llys

ynghylch cynlluniau gofal a chymorth. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi swyddi yn y tîm Cefnogi Newid i adolygu'r trefniadau ar gyfer Lleoli gyda Rhiant.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gynnal yn ystod y pandemig, gyda rhai timau yn parhau i weithio o swyddfeydd (yn ddiogel) a rhai eraill yn gweithio o bell. Clywsom am gynnydd cadarnhaol ym mhresenoldeb partneriaid mewn cyfarfodydd diogelu rhithwir. Gwelsom fod gweithwyr cymdeithasol yn cynnal ymweliadau amddiffyn plant wyneb yn wyneb ac yn hwyluso cyswllt gan gwblhau asesiadau risg COVID-19.

Mae'r awdurdod lleol yn ystyried hawliau plant i gael cynnig eiriolaeth ffurfiol. O'r wybodaeth a ddarparwyd, gwelsom fod tystiolaeth dda o blant yn cael eu cyfeirio at wasanaethau eirioli yn ystod pandemig COVID-19. Er bod y staff yn cydnabod pwysigrwydd rhieni a theuluoedd fel eiriolwyr i'w plant, mae angen sicrhau bod perthnasedd gwasanaethau eirioli ffurfiol a'r cynnig rhagweithiol yn cael ei ymgorffori mewn arferion bob dydd.

Mae ffocws a groesewir ar ddatblygu'r gweithlu gan gydnabod bod trefniant rhanbarthol wedi gwella'r amrywiaeth o hyfforddiant sydd ar gael i staff gwaith cymdeithasol. Er bod y llwythi achosion yn brysur yn ôl y staff a'r rheolwyr, roeddent yn ymdopi ar y cyfan. Mae gan lawer o'r ymarferwyr y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ymgysylltu â theuluoedd ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny. Mae'r gweithwyr yn gallu ymgysylltu â phobl mewn modd ystyrlon gyda'r nod o sicrhau y caiff plant eu magu gan eu teuluoedd ac y gall pobl hŷn aros gartref am gyhyd â phosibl. Clywsom adborth cadarnhaol gan bobl am waith cymdeithasol y timau a dangosodd ein cyfweliadau fod y staff yn brofiadol ac yn fedrus hefyd.

Dull:

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â 23 o ofalwyr a 11 o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth, neu sydd eisoes wedi'u derbyn
- gwnaethom adolygu 30 o ffeiliau
- gwnaethom gynnal 15 o gyfweliadau olrhain achosion gyda staff
- gwnaethom gynnal naw grŵp ffocws
- gwnaethom gynnal arolwg i weithwyr gwasanaethau cymdeithasol
- gwnaethom gynnal arolwg i rieni a gofalwyr plant anabl
- gwnaethom gynnal arolwg i bobl a oedd â phrofiad o ofal a chymorth

Y Camau Nesaf

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd ar gyfer eu gwella fel blaenoriaeth a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn trwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad gyda'r penaeithiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr.

Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol.

Hoffem ddiolch i bawb a helpodd gyda'r trefniadau ar gyfer yr arolygiad hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Louise Bushell-Bauers', with a small flourish at the end.

Louise Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru